WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r broses o drosglwyddo cyfleusterau hamdden i bartner cyflenwi newydd y Cyngor – **Cyngor Dinas a Sir Abertawe**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2253A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Colin Davies, Justine Morgan, Gareth W. Lewis a Sara Leahy o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod y gwasanaeth presennol yn gynaliadwy ond nid yw wedi datblygu ei strategaeth a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn Abertawe yn y dyfodol hyd yn hyn.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi ceisio diwallu'r anghenion tymor byr o wneud arbedion ac o gynnal y ddarpariaeth hamdden, ond nid yw wedi nodi cyfeiriad hirdymor y Gwasanaethau Hamdden hyd yn hyn 6

Mae'r Cyngor wedi atal ei asedau a'i wasanaethau hamdden rhag dirywio dros amser, ond nid yw wedi penderfynu eto sut y gall y Gwasanaeth Hamdden sicrhau manteision ataliol a phwy arall y bydd angen gweithio gyda nhw er mwyn eu cynyddu gymaint â phosibl 7

Mae'r Cyngor yn deall sut y gall ei Wasanaeth Hamdden gyfrannu at gyflawni rhai amcanion llesiant, ond mae angen cryfhau'r cysylltiadau â gwasanaethau a phartneriaid eraill y Cyngor 9

Mae'r Gwasanaeth Hamdden wedi cydweithio'n dda â phartneriaid yn y gorffennol ac mae'r berthynas gynnar â Freedom Leisure yn gadarnhaol, ond nid yw'r Gwasanaeth wedi cwblhau'r trefniadau eto o ran sut caiff y cydweithrediad ei fonitro 10

Mae'r Cyngor wedi cynnwys ysgolion ac Undebau Llafur yn y broses o drosglwyddo cyfleusterau hamdden, ond nid yw wedi ymgysylltu â'r cyhoedd eto a cheir cyfle i wneud hyn drwy ddatblygu ei Strategaeth Ddiwylliant 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol y Pum Ffordd o Weithio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'n statudol ofynnol bod Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

- bennu eu hamcanion llesiant; ac wrth
- gymryd camau i'w cyflawni nhw.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel un sy'n gweithredu mewn modd: '... sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

3 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Mae'n rhaid i'r adroddiad cyntaf o'r fath gael ei gyhoeddi erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf er mwyn llywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd gennym yn ystod y cyfnod Awst 2019 i Hydref 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r broses o 'drosglwyddo cyfleusterau hamdden yn llwyddiannus i bartner cyflenwi'r Cyngor', cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn a archwiliwyd gennym

8 Buom yn archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth drosglwyddo cyfleusterau hamdden yn llwyddiannus i bartner cyflenwi'r Cyngor.

9 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ffyrdd canlynol o weithio:

Arddangosyn 1: Y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen **Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Yr hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso'r anghenion tymor byr yn ogystal â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni'r anghenion hirdymor. |
| **Atal**<br>Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys y bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fod: **y Cyngor wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod y gwasanaeth presennol yn gynaliadwy ond nad yw wedi datblygu ei strategaeth a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn Abertawe yn y dyfodol eto.**

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, 2015.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r Cyngor wedi ceisio diwallu'r anghenion tymor byr o wneud arbedion ac o gynnal y ddarpariaeth hamdden, ond nid yw wedi nodi cyfeiriad hirdymor y Gwasanaethau Hamdden hyd yn hyn

#### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

11 Buom yn chwilio am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â nhw;
- cynllunio ar gyfer amserlen briodol
- adnoddau a ddyrennir er mwyn sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi eu nodi a'u ddefnyddio yn rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd gennym

13 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- cydnabu'r Cyngor fod parhau â gwasanaeth hamdden 'mewnol' yn golygu y byddai cyfleusterau'n dirywio ac y gallent gau yn y pen draw. Roedd y gallu i ddarparu gwasanaethau hamdden yn yr hirdymor mewn perygl.
- bod partneru â Freedom Leisure yn galluogi'r Gwasanaeth i barhau i gyflawni ei flaenoriaethau ac yn caniatáu rhagor o fuddsoddiad yn y cyfleusterau hamdden.
- bod y Cyngor wedi ymrwymo i gontract 19.5 mlynedd, sy'n ymrwymiad hirdymor.
- bod buddsoddi cyfalaf a gweithredu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn ymrwymiad hirdymor er mwyn gwella'r cyfleusterau.

14 Gwnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- mae angen i'r Cyngor flaenoriaethu ei Strategaeth Ddiwylliant, a ddylai ddarparu fframwaith strategol, hirdymor i Freedom Leisure ar gyfer y Gwasanaeth er mwyn cofnodi, monitro ac adrodd ar ganlyniadau;

[2]Gweler Atodiad 1

  - defnyddio data i ddeall y sefyllfa gyfredol a’r angen am ddarpariaeth hamdden yn y dyfodol;
  - egluro’r swyddogaeth y mae hamdden yn ei chwarae wrth gyflawni uchelgeisiau hirdymor, ehangach y Cyngor;
- er bod y cofnod o’r penderfyniad i gontractio gyda Freedom Leisure yn nodi y dylai cynghorwyr ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wrth wneud y penderfyniad, nid yw’n glir beth oedd cynnwys yr ystyriaeth honno;
- roedd y Gwasanaeth Hamdden yn ei chael yn anodd bod y gwasanaeth cyntaf i fynd drwy broses Adolygu Comisiynu’r Cyngor – y Gwasanaeth oedd ar flaen y gad a cheir cyfleoedd i rannu’r hyn a ddysgwyd yn ehangach;
- oherwydd y pwyslais presennol ar gyflawni prosiectau cyfalaf:
  - nid yw’r trefniadau i fonitro ac adolygu’r contract wedi eu rhoi ar waith eto;
  - nid yw fformat na chynnwys yr adroddiad monitro chwarterol wedi eu cwblhau gan y naill barti na’r llall sy’n ymwneud â’r contract.

## Mae’r Cyngor wedi atal ei asedau a’i wasanaethau hamdden rhag dirywio dros amser, ond nid yw wedi penderfynu eto sut y gall y Gwasanaeth Hamdden sicrhau manteision ataliol a phwy arall y bydd angen gweithio gyda nhw er mwyn eu cynyddu gymaint â phosibl

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

15 Buom yn chwilio am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o natur a math y broblem y gallai’r cam helpu i’w atal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau a ddyrennir er mwyn sicrhau y caiff manteision ataliol eu darparu; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw’r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

16 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi eu nodi a’u defnyddio yn rhan o’r archwiliad hwn.[3]

[3]Gweler Atodiad 1.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

17 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- pwyslais y cam hwn oedd sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gwasanaeth hamdden i ddinasyddion Abertawe drwy ymrwymo i gontract 19.5 mlynedd – er mwyn atal y gwasanaeth a'r asedau rhag dirywio dros amser a diflannu yn y pen draw;
  - diogelu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth lleol i breswylwyr a ystyrir fel arall yn flaenoriaeth isel yn ariannol (o gymharu ag addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a lles) ond sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol at yr holl flaenoriaethau hynny;
  - gwell gwasanaethau a chyfleusterau i'r cyhoedd, rhanddeiliaid ac ysgolion y rhagwelir y bydd yn cynyddu'r defnydd o gyfleusterau ac, yn y tymor hwy, yn gwella manteision iechyd a lles;
  - cynnig hamdden ar y cyd i drigolion sy'n ymgorffori safleoedd cymunedol a'r canolfan hamdden, yn ogystal â dewisiadau o ddefnyddio safleoedd eraill a weithredir gan Freedom Leisure y tu allan i Abertawe, gan gynnwys Powys a Wrecsam;
- mae'r Cyngor wedi cadw tîm rheoli 'mewnol' craidd i oruchwylio'r Gwasanaethau Hamdden ac i reoli'r contract gyda Freedom Leisure:
  - mae'r tîm mewnol yn cynnal polisi a strategaeth ar gyfer darpariaeth hamdden;
  - mae'r tîm hwn ar gael hefyd i gynnig cyngor i'r ystod eang o glybiau chwaraeon ledled Abertawe;
  - mae'r Gwasanaeth wedi cadw sgiliau a gwybodaeth berthnasol ar gyfer y Cyngor.

18 Gwnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai fod wedi cofnodi ei agenda ataliol yn gryfach. Mae wedi cydnabod yr angen i gwblhau ei Strategaeth Ddiwylliannol, dangos tystiolaeth gliriach o'i ffordd ataliol o weithio, a sefydlu mesurau i werthuso effeithiau a chanlyniadau.
- gallai'r Cyngor wneud rhagor o gynnydd wrth benderfynu sut y bydd yn gwerthuso effaith y newidiadau y mae wedi eu gwneud:
  - dywedodd y Cyngor ei fod yn ymateb i Lywodraeth Cymru ac yn darparu'r wybodaeth ar gyfer y dangosyddion perfformiad y mae wedi eu rhoi ar waith.
  - mae'r dangosyddion perfformiad hyn yn feintiol i raddau helaeth (e.e. ffigurau ar gyfer nifer y pennau) ac nid ydynt yn caniatáu i'r Cyngor fesur na dangos yr effeithiau a'r canlyniadau y mae'r newidiadau'n eu cael.
  - mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai wneud rhagor yn y maes hwn er mwyn nodi'r ateb i'r cwestiwn 'beth felly?'.

## Mae'r Cyngor yn deall sut y gall ei Wasanaeth Hamdden gyfrannu at gyflawni rhai amcanion llesiant, ond mae angen cryfhau'r cysylltiadau â gwasanaethau a phartneriaid eraill y Cyngor

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

19 Buom yn edrych am dystiolaeth fod y canlynol yn cael eu hystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

20 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- yn strategol, bydd diogelu Gwasanaeth Hamdden lleol yn cyfrannu at amcanion y Cyngor o ran adfywio canol y ddinas ac atal tlodi. Mae'r Cyngor yn credu y bydd parhau i ddarparu cyfleusterau hamdden, a gwella'r cyfleusterau hynny, yn sicrhau rhagor o ddefnydd o'r cyfleusterau a gwelliannau i fanteision iechyd a lles.
- mae'r Cyngor a Freedom Leisure wedi integreiddio'n dda â safleoedd yr ysgol er mwyn cwblhau'r trefniant contractio:
  - mae'r Cyngor wedi ymgynghori â safleoedd yr ysgol drwy'r broses.
  - bydd yr ysgolion wedi gwella cyfleusterau hamdden gyda gwell darpariaeth mynediad a diogelu.

21 Gwnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- mae'r Cyngor yn bwriadu blaenoriaethu'r gwaith o gwblhau ei Strategaeth Ddiwylliant, gan ddangos sut mae Hamdden yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant.
- mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall hamdden wella lles ond mae angen iddo ddeall sut y gall hamdden helpu gwasanaethau a phartneriaid eraill y Cyngor i gyflawni eu hamcanion hwythau.
- megis dechrau y mae'r berthynas gontract, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cynnwys gwaith manwl Freedom Leisure yng nghynlluniau corfforaethol a gwasanaeth y Cyngor.

22 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi eu nodi a'u defnyddio yn rhan o'r archwiliad hwn.[4]

## Mae'r Gwasanaeth Hamdden wedi cydweithio'n dda â phartneriaid yn y gorffennol ac mae'r berthynas gynnar â Freedom Leisure yn gadarnhaol, ond nid yw'r Gwasanaeth wedi cwblhau'r trefniadau eto o ran sut caiff y cydweithrediad ei fonitro.

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

23 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (er mwyn bodloni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i fodloni ei amcanion llesiant yntau);
- yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithrediad yn ei helpu, neu yn helpu ei randdeiliaid, er mwyn cyflawni amcanion llesiant.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

24 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- mae'r Gwasanaeth Hamdden yn falch o'r berthynas y mae wedi ei ffurfio gyda Freedom Leisure:
  – mae'r Cyngor yn credu bod cydweddiad diwylliannol rhwng y ddau barti;
  – Mae gan Freedom Leisure ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau'r Cyngor;
  – ystyrir y berthynas yn un sy'n contractio yn hytrach na threfnu ar gontract allanol;
  – mae'r Cyngor yn datgan mai perthynas dwy ffordd ydyw – mae Freedom Leisure yn bwydo i mewn i Gynllun Corfforaethol y Cyngor ond mae'n rhaid ymateb i'r Cynllun hwnnw hefyd;
- mae gan y Gwasanaeth Hamdden hanes o gydweithio â phartneriaid eraill i ddarparu hamdden (e.e. y Pwll Cenedlaethol, Nofio Cymru, Chwaraeon Cymru, a'r Canolfan Hamdden);
- bu cydweithio agos ag ysgolion ynglŷn â'r canolfannau hamdden ar safleoedd ysgolion.

[4]Gweler Atodiad 1.

25 Gwnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- dylai'r Cyngor ymwreiddio'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r contract a'r nodau hirdymor y bydd angen eu crybwyll drwy ei Strategaeth Ddiwylliant:
  – bwriad y ddau barti yw cael cyfarfodydd chwarterol, ond mae cyfarfodydd yn digwydd yn amlach yn ystod cyfnod cynnar y contract a datblygiad y prosiect cyfalaf.
  – dim ond un adroddiad monitro a gafwyd gan Freedom Leisure ers i'r contract ddechrau ym mis Hydref 2018. Mae'r ail adroddiad, sy'n cwmpasu perfformiad dau chwarter, i fod i gael ei gyhoeddi'n fuan.
  – Nid yw fformat na chynnwys yr adroddiad monitro chwarterol wedi eu cwblhau eto gan y naill barti na'r llall sy'n ymwneud â'r contract. Nid yw cynnwys y Cerdyn Sgorio Canlyniadau (un o ofynion y contract) wedi ei gwblhau eto.
- Dylai'r Gwasanaeth Hamdden nodi cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid eraill er mwyn siapio darpariaeth hamdden yn yr hirdymor.

26 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi eu nodi a'u defnyddio yn rhan o'r archwiliad hwn.[5]

## Mae'r Cyngor wedi cynnwys ysgolion ac Undebau Llafur yn y broses o drosglwyddo cyfleusterau hamdden, ond nid yw wedi ymgysylltu â'r cyhoedd eto ac mae ganddo gyfle i wneud hyn drwy ddatblygu ei Strategaeth Ddiwylliant.

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

27 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen eu cynnwys wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i siapio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cam; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gynnwys.

[5] Gweler Atodiad 1

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

28 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- lluniodd y Cyngor sylfaen dystiolaeth gadarn drwy gydol y broses. Roedd hyn yn ddefnyddiol wrth ateb cwestiynau ac roedd yn helpu i hysbysu a chynnwys staff ac aelodau etholedig o ran sut y gwnaeth y Cyngor y penderfyniad i gontractio gyda Freedom Leisure.
- roedd y Gwasanaeth Hamdden yn cynnwys ysgolion yn agos yn y broses er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno â'r trefniadau – gan nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt o ran gwell mesurau diogelu a mynediad i safleoedd.
- cwblhaodd y Cyngor broses fanwl a oedd yn cynnwys staff ac Undebau Llafur yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y broses o drosglwyddo cyfleusterau hamdden i Freedom Leisure:
  - mae'r Cyngor yn credu bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod staff yn cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf.
  - cynhaliwyd sesiynau cyfarwyddo gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

29 Gwnaethom ni nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- ystyriodd y Cyngor ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y penderfyniad i gontractio a phenderfynodd na fyddai gan y cyhoedd ddiddordeb mewn pwy oedd y darparwr terfynol. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor gynnwys y cyhoedd wrth bennu'r math o wasanaethau hamdden y mae arnynt eu hangen a'u hangen yn yr hirdymor. Mae creu'r Strategaeth Ddiwylliant yn darparu'r cyfle hwn.
- dylai'r Cyngor a Freedom Leisure weithredu gofynion y contract er mwyn llunio adroddiad o'i gymharu â'r pum ffordd o weithio yn eu trefniadau adrodd chwarterol. Dylai hyn gynnwys safbwynt y cyhoedd hefyd ar y gwasanaethau a ddarperir.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

30 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben. Mae datblygu a chyhoeddi ei Strategaeth Ddiwylliant, a chynllunio ac ymwreiddio trefniadau monitro ac adrodd ar berfformiad priodol yn gamau gweithredu allweddol i'r Cyngor eu blaenoriaethu mewn ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, cynhaliwyd adolygiad dilynol ar wahân ond cysylltiedig gennym, sef 'Cyflawni â Llai – Adroddiad Dilynol y Gwasanaethau Hamdden', a oedd hefyd yn tynnu sylw at y materion hyn. Wrth adrodd am y gwaith hwnnw i'r Cyngor ym mis Chwefror 2020, gwnaethom y cynnig canlynol ar gyfer gwelliannau:

Arddangosyn 2: cynnig ar gyfer gwelliannau

| **Cynnig ar gyfer gwelliannau (Cyflawni â Llai – Adroddiad Dilynol y Gwasanaethau Hamdden)** | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor gwblhau ei Strategaeth Ddiwylliant er mwyn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth ac wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor sicrhau'r canlynol:<br>• bod datblygu cerdyn sgorio canlyniadau yn darparu canlyniadau clir a chyfeiriad strategol am y gwasanaeth i Freedom Leisure;<br>• bod trefniadau monitro perfformiad effeithiol gyda Freedom Leisure; ac<br>• yr ystyrir yn briodol effaith y strategaeth a'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol o ran lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy gymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); |

31 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r camau hyn, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol y Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 3: Dangosyddion Cadarnhaol y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio a nodwyd gennym. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe'n helpodd i ddod i gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

| Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'n llwyr y ffordd hirdymor o weithio? |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o'r hyn a olygir gan 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant ac yn cyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi cynllunio'r cam er mwyn cyflawni manteision tymor byr neu ganolig, sy'n cael eu cydbwyso â'r effaith hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi cynllunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi eu dyrannu er mwyn sicrhau y darperir manteision hirdymor yn ogystal â thymor byr.<br>• Ceir pwyslais cryf ar gyflawni canlyniadau, a nodir cerrig milltir/camau cynnydd pan gyflawnir canlyniadau yn yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i sicrhau manteision yn y tymor hwy.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |

| Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'n llwyr y ffordd ataliol o weithio? |
|---|
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gellir mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng y cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu sicrhau i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer camau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well ganlyniadau a defnydd o adnoddau yn y tymor hwy, hyd yn oed pan fo hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion yn y tymor byr.<br>• Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir o ran canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth a fyddai'n dangos bod gan y corff ddull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth yw eu cyfraniad o ran cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Ailadroddir hyn yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol wrth gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle bo gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad ar draws y nodau llesiant, gan leihau effeithiau negyddol.<br>• Mae llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, fel y mae ymddygiadau. |
| **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgareddau cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, a rhennir gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio a rennir, pan fo hynny'n briodol. |
| **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy sydd angen cymryd rhan a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda y deellir yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny ar hyn o bryd.<br>• Gweithio'n gyd-gynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Gweld safbwyntiau rhanddeiliaid fel ffynonellau hanfodol o wybodaeth a fydd yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell.<br>• Sicrhau bod holl amrywiaeth y rhanddeiliaid yn cael ei chynrychioli a'u bod nhw'n gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthynas aeddfed sy'n llawn ymddiriedaeth gyda'i randdeiliaid lle bo deialog a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n barhaus mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Gofyn am sylwadau gan randdeiliaid allweddol, a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru